Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Grŵp Trawsbleidiol Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

Cyfarfod am 6.30pm, dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2016, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel

## COFNODION

**Yn bresennol:**

David Rees AC (yn y Gadair), Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, David Rowlands AM, yr Athro Julie Williams CBE, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, Dr Ben Evans, prosiect Bloodhound, Prifysgol Abertawe, a chynrychiolwyr cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol:
Helen Francis (CBAC), Rebecca Davies (EESW), Wendy Sadler (Science Made Simple), yr Athro Emeritws Keith Smith (Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol), Dr Stephen Benn (Cymdeithas Bioleg Frenhinol), Dr David Cunnah (Y Sefydliad Ffiseg), yr Athro Ian Wells (Prifysgol y Drindod Dewi Sant), yr Athro Mike Edmunds (Y Gymdeithas Seryddol Frenhinol), Cerian Angharad (ASE), Dr Geertje van Keulen (Y Gymdeithas Microbioleg), Andy Pugh (Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol), David Rowlands (Sefydliad y Peirianwyr Sifil) , Yr Athro Farom Moller (Technocamps), a Leigh Jeffes

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, yr Athro Julie Williams, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, a’r siaradwr gwadd, Dr Ben Evans, o brosiect Bloodhound.

Diolchodd y Cadeirydd i Eluned Parrott am ei chyfraniad ardderchog fel is-gadeirydd a’i chefnogaeth frwd i’r grŵp trawsbleidiol dros y pum mlynedd diwethaf. Cytunwyd y dylai Leigh ysgrifennu at Eluned i ddiolch iddi ar ran y grŵp.

Yn ogystal â’r is-gadeiryddion, Simon Thomas AC a Nick Ramsay AC, mae nifer o gydweithwyr wedi mynegi diddordeb mewn dod i’r cyfarfodydd, gan gynnwys: Huw Irranca-Davies AC, Dr Dai Lloyd AC, David Melding AC, Jeremy Miles AC, David Rowlands AC a Joyce Watson AC.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Simon Thomas AC, a Nick Ramsay AC ynghyd â
Bob Cater (EESW), Dave Jones (Y Gymdeithas Daeareg), Rhys Phillips (IET) a Dr Rob Janes (Y Brifysgol Agored), Dr Rhobet Lewis (Prifysgol De Cymru) a’r Athro Tom Crick (CaSE).

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2015**

Mae'r rhain wedi'u dosbarthu. Cywiro’r cofnodion: Mae’r Athro Ian Wells yn cynrychioli Prifysgol y Drindod Dewi Sant nid Prifysgol Fetropolitan Abertawe

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Newid enw - *Grŵp trawsbleidiol STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg)***

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnig i newid enw’r grŵp i gydnabod ei gylch gwaith ehangach. Cytunwyd i wneud hynny. Awgrymodd yr Athro Keith Smith hefyd y dylai’r grŵp trawsbleidiol ychwanegu ail ‘M’ at 'STEM', i gyfeirio at feddygaeth.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad 2016 (Adroddiad)**

Rhoddodd Leigh adroddiad byr ar y digwyddiad eleni, a gynhaliwyd ar 24 Mai, a lwyddodd i ddenu cynulleidfa lawn ac arddangosfa ardderchog. Cafwyd rhaglen ragorol o siaradwr a fu’n ymdrin ag ynni a'r amgylchedd. Diolchodd y Cadeirydd am noddi *Gwyddoniaeth a'r Cynulliad*, ac i David Melding AC, Simon Thomas AC, a Mark Reckless AC am siarad yn y derbyniad gyda'r nos. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ar drefnu digwyddiad hynod ddiddorol.

Cynhelir *Gwyddoniaeth a'r Cynulliad* ar 6 Mehefin y flwyddyn nesaf.

**Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru**

Rhoddodd yr Athro Julie Williams anerchiad byr i’r grŵp ar rai meysydd a gweithgareddau a oedd o ddiddordeb ar hyn o bryd, gan gynnwys sefydlu a datblygu tri rhwydwaith ymchwil Sêr Cymru a’r ‘Sêr’ ymchwil, y diffyg capasiti yn y pynciau STEM, a recriwtio ymchwilwyr o safon.

Hefyd, disgwylir cyhoeddiad cyn diwedd y flwyddyn, yn seiliedig ar y 30 o argymhellion ar gyfer *Menywod mewn Gwyddoniaeth*.

Yn dilyn cwestiynau gan y gynulleidfa, diolchodd y Cadeirydd i’r Athro Williams am ei sylwadau.

**Pynciau i'w trafod yn y cyfarfodydd fis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2017**

Gofynnwyd i’r aelodau anfon syniadau i'w trafod yn y cyfarfodydd nesaf at Leigh.
Mae Leigh wedi cysylltu â Dr Sarah Main, Cyfarwyddwr yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg i siarad yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**

Cafwyd crynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch presennol a'r gweithgarwch sydd ar y gweill.

**Cyflwyniad: Dr Ben Evans, Uwch-ddarlithydd mewn Peirianneg Aerofod, Prifysgol Abertawe**

Rhoddodd Dr Ben Evans gyflwyniad ar brosiect Bloodhound ym Mhrifysgol Abertawe, ac atebodd amrywiaeth o gwestiynau gan yr aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Evans am ei gyflwyniad rhagorol ac addysgiadol.

**Unrhyw Fater Arall**

Ni nodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mercher 2 Tachwedd (cyfarfod cyffredinol blynyddol)

**Cloi'r cyfarfod**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm.